PROSESAU BYWYD A PHETHAU BYW:

Cyfres o 24 sgrîn sy'n cwmpasu agweddau o brosesau bywyd a phethau byw a geir yn y pecyn hwn. Mae'n cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA1 Prosesau Bywyd ac yn cynnwys sgriniau ar ddidoli anifeiliaid a phlanhigion, enwi prif rannau allanol a mewnol y corff dynol, bwyd, y cynefin, prif rannau planhigion gwyrdd a thyfu hadau.

Y SGRÎN AGORIADOL:



Mae'r sgrîn agoriadol yn cynnig dewis o weithgareddau a gellwch eu hagor mewn unrhyw drefn.

1. Cliciwch yma i agor sgrîn ar bethau byw a phethau sydd ddim yn fyw.
2. Cliciwch yma am wybodaeth amdan y botymau a geir ar y sgriniau.
3. Cliciwch yma i agor sgrîn ar blanhigion blodeuol.
4. Cliciwch yma i agor sgrîn ar y corff dynol.
5. Cliciwch yma i agor sgrîn ar y synhwyrau.
6. Cliciwch yma i agor sgrîn ar dyfu hadau.
7. Cliciwch yma i agor sgrîn ar grwpio pethau byw.
8. Cliciwch yma i agor sgrîn ar fwyd a diet.
9. Cliciwch yma i agor sgrîn ar gylch bywyd llyffant.

Y CYNNWYS:

1. Byw neu ddim yn fyw? - llusgo lluniau i'r blychau perthnasol.
2. Byw neu ddim yn fyw? - llusgo lluniau i'r blychau perthnasol.
3. Anifeiliaid a phlanhigion - llusgo lluniau i'r blychau perthnasol.
4. Anifeiliaid a phlanhigion - llusgo lluniau i'r blychau perthnasol.

5. Cylch bywyd llyffant - llusgo lluniau i'r blychau perthnasol.
6. Rhannau'r corff - labelu prif rannau'r corff.
7. Rhannau'r pen - labelu prif rannau'r pen.
8. Tebyg neu ddim yn debyg? - gweithgaredd pen agored ar adnabod nodweddion wyneb.
9. Tebyg neu ddim yn debyg? - paru anifeiliaid tebyg.
10. Tyfu'n oedolyn - paru anifeiliaid.
11. Tu mewn i'r corff - tynnu ac ail osod y rhannau a'u labelu.
12. Y synhwyrau - paru lluniau.
13. Bwyd - grwpio bwyd yn fwyd iach, bwyd melys a bwyd brasterog.
14. Beth am bryd o fwyd? - dewis pryd o fwyd - gweithgaredd pen agored.
15. Bwydlen - cynhyrchu bwydlen - gweithgaredd pen agored.
16. Planhigyn blodeuol - tynnu ac ail osod y rhannau a'u labelu.
17. Tyfu hadau - rhoi'r lluniau yn y drefn gywir.
18. Tyfu bwlb - rhoi'r lluniau yn y drefn gywir.
19. Cylch bywyd planhigyn - rhoi'r lluniau yn y drefn gywir.
20. Paratoi ar gyfer tyfu hedyn ffeuen - rhoi'r lluniau yn y drefn gywir
21. Tyfu hedyn ffeuen - rhoi'r lluniau yn y drefn gywir.
22. Grwpio pethau byw - llusgo organebau tebyg i'r blychau perthnasol.
23. Grwpio pethau byw - grwpio yn ôl eu cynefin - glan y môr a gardd.
24. Gwnewch sgrîn newydd - gweithgaredd pen agored.

Y SGRINIAU:

Mae'r sgriniau'n cynnig dewis o weithgareddau a gall y plant ychwanegu atynt trwy lusgo labeli a lluniau sydd wedi'u darparu iddynt yn y paneli adnoddau. Gallant glicio ar y botwm tasg a chyflawni'r dasg a rhoddir iddynt, neu ddefnyddio cynnwys y sgrîn yn eu ffordd eu hunain.

Y BOTYMAU:

Gall y plant glicio ar fotymau i agor y paneli adnoddau, tasg a geirfa. Gallant glicio ar y botwm gwirio am gymorth a gallant symud o sgrîn i sgrîn trwy glicio ar y saethau, neu ddychwelyd at yr hafan ddalen trwy glicio ar y ty.

FFORMAT MY WORLD A FFORMAT TEXTEASE:

Mae'r pecyn hwn yn becyn cynhaliol i 'MY WORLD 3', 'MY WORLD FOR WINDOWS' A 'TEXTEASE'. Mae angen un o' r uchod ar y cyfrifiadur i redeg y pecyn. Mae'r fformat 'My World' yn mewnosod. Rhaid mewnosod yn fformat 'Textease' trwy gopïo'r blygell i'r ddisg galed – gweler 'MEWNOSOD' isod.

Yn y fformat 'My World' - CLICIWCH 'Alt' ar y bysellfwrdd i agor y ddewislen ac argraffu sgrîn, arbed sgrîn neu ddod allan o 'My World'.

Mae'r fformat 'My World' a'r fformat 'Textease' o'r meddalwedd ar yr un CD gan adael y dewis i'r athro.

Y BOTYMAU AR Y SGRINIAU:

Mae nifer o fotymau ar y sgriniau a gall y plant eu hagor mewn unrhyw drefn.

1. Y botwm yn ôl. Cliciwch yma i agor y sgrîn flaenorol.
2. Y botwm tasg. Cliciwch yma am dasg.
3. Y botwm testun. Cliciwch yma i greu testun newydd.
4. Y botwm geirfa. Cliciwch yma i gael testun parod.
5. Y botwm cymorth. Cliciwch yma am gymorth ychwanegol.
6. Y botwm adnoddau. Cliciwch yma am rhagor o luniau.
7. Y botwm lleihau. Cliciwch raffeg neu destun ar y botwm hwn i'w lleihau.
8. Y botwm chwyddo. Cliciwch raffeg neu destun ar y botwm hwn i'w chwyddo.
9. Y botwm bin. Cliciwch raffeg neu destun ar y botwm hwn i'w ddileu.
10. Y botwm hafan. Cliciwch yma i ddychwelyd at y sgrîn agoriadol.
11. Y botwm ymlaen. Cliciwch yma i agor y sgrîn nesaf.

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11

FFORMAT MY WORLD

1	2	5	10	11

FFORMAT TEXTEASE

Gweler y llyfryn 'Textease' am ragor o fanylion am y botymau ar y bar uchaf.

Y PECYN A'R CWRICWLWM:

Mae'r pecyn yn cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA1 Prosesau Bywyd a phethau byw fel y gweler isod:

PROSESAU BYWYD:

1. Y gwahaniaethau rhwng pethau byw a phethau nad ydynt yn fyw.
2. Bod gan fodau dynol ac anifeiliaid eraill synhwyrau.

3. Bod anifeiliaid gan gynnwys bodau dynol yn symud, bod angen bwyd a diod arnynt, eu bod yn tyfu ac atgenhedlu.

BODAU DYNOL AC ANIFEILIAID ERAILL:

1. Enwi prif rannau allanol y corff.
2. Adnabod nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol ryngddynt.
3. Cymharu rhannau allanol cyrff dynol â rhannau allanol anifeiliaid eraill.
4. Bod bwyta'r mathau cywir o fwyd yn helpu bodau dynol i gadw'n iach.
5. Y gall bodau dynol gynhyrchu babanod a bod y babanod hyn yn tyfu'n oedolion.

PLANHIGION GWYRDD FEL ORGANEBAU:

1. Fod angen goleuni a dwr ar blanhigion i dyfu'n iach.
2. Adnabod deilen, blodyn, coesyn a gwreiddyn planhigyn blodeuol.
3. Bod planhigion blodeuol yn cynhyrchu hadau sydd yn eu tro yn cynhyrchu planhigion newydd.

PETHAU BYW YN EU HAMGYLCHEDD:

1. I ddysgu am y gwahanol fathau o blanhigion ac anifeiliaid sydd i' w cael yn yr amgylchedd.
2. Bod modd gosod anifeiliaid a phlanhigion mewn grwpiau.

PROSESAU BYWYD A PHETHAU BYW © Clic 2001, 2003

SGRINIAU GAN GAYNOR PERRY; GRAFFEG GAN GAYNOR PERRY

PWYSIG: Ni cheir copïo'r pecyn hwn neu'i roi i unrhyw unigolyn neu ganolfan arall. Byddai hyn yn torri'r hawlfraint ac yn anghyfreithlon.

MEWNOSOD Y FFORMAT MY WORLD:

Dylai rhoi'r CD yn y gyriant CD achosi i flwch dialog 'SetUp' ymddangos.
Yna, dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn.

MEWNOSOD Y FFORMAT TEXTEASE:

Dylai defnyddwyr Textease glicio ar 'My Computer' i agor y gyriant CD. Gellir copïo'r blygell ProsBywTex i'r ddisg galed a gwneud llwybr byr ar y bwrdd gwaith i'r ffeil agoriadol, sef 1Byw.

Y FFONT YSGOL 2:

Defnyddiwd y ffont 'Ysgol 2' ar y sgriniau gyda chaniatâd MEU Cymru.

www.meucymru.co.uk

Dylai mewnosodwr My World fewnosod y ffont Ysgol 2 yn y blygell ffontiau.

Dylai defnyddwyr Textease agor y blygell 'Ffontiau' ar y CD, yna clicio ddwywaith ar setup.exe. Bydd hyn yn arsefydlu 'Ysgol 2' yn y blygell ffontiau.

GWELER Y DDOGFEN SAESNEG 'LIFE PROCESSES AND LIVING THINGS' AM RAGOR O WYBODAETH e.e. Y graffeg, Cwmhwysiad, Ystod gallu a gwahaniaethu, Cynhaliaeth a Byrddau gwyn rhyngweithiol

DYWEDWCH WRTH ERAILL OS YDYCH YN HOFFI EIN CYNNYRCH.

DYWEDWCH WRTHYM NI OS OES UNRHYW BETH SYDD DDIM YN EICH PLESIO AM EIN CYNNYRCH.

Clic, Bwthyn Y Glyn, Nant Y Garth, Y Felinheli, Gwynedd. LL56 4QB
Ffôn 01248 671093
Ffacs (ac ail lein) 01248 679295

ebôst-clic@clicsoft.co.uk
CYSWLLT: Gaynor neu Thomas Perry.